

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Partneriaethau Dyddiad: 18 Tachwedd 2016  
Rhif Union: 01824 712554  
ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe’ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2016 am 9.30 am yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.

## Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

## RHAN 1 – GWAHOEDDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhaqfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol aq Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2016 (copi ynghlwm).

**5 YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH – PROSIECT CYFLEUSTER IECHYD**

Derbyn cyflwyniad ar lafar.

**9.40 a.m. – 10.30 a.m.**

**6 STRATEGAETH CEFNOGI ANNIBYNIAETH YN SIR DDINBYCH**

(Tudalennau 15 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth – Ardal y Gogledd (copi ynghlwm) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â Chefnogi Annibyniaeth yn Strategaeth Sir Ddinbych a'r gwahanol fentrau sydd wedi eu datblygu.

**10.30 a.m. – 11.00 a.m.**

~~~~ EGWYL 11.00 a.m. – 11.15 a.m. ~~~~

**7 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL – CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2017-18** (Tudalennau 91 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Comisiynu a Thendro (copi ynghlwm) sy'n rhoi manylion y Cynllun Comisiynu Lleol 2017-18 ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych.

**11.15 a.m. – 11.45 a.m.**

**8 PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CAEËDIG** (Tudalennau 139 - 152)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) i roi diweddarriad i'r Aelodau ar y Bartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig, y trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer y Bartneriaeth, a'i effeithiolrwydd wrth gyflwyno gwasanaeth ers ei ffurfio ar 1 Ebrill 2016.

**11.45 a.m. – 12.15 p.m.**

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 153 - 172)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwylgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.15 p.m. – 12.30 p.m.**

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddarriad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrrdau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.30 p.m. – 12.40 p.m.**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cyngropydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Pat Jones  
Gwyneth Kensler  
Pete Prendergast

Y Cyngropydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Arwel Roberts  
Bill Tasker  
Huw Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Iau, 6 Hydref 2016 am 9.30am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Gwyneth Kensler, Pete Prendergast, Bill Tasker a Huw Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, y Cynghorydd Hugh Evans (Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi) a'r Cynghorydd David Smith (Aelod Arweiniol, Parth Cyhoeddus).

Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau), Phil Gilroy (Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol), Emma Horan (Swyddog Cynllunio a Pherfformiad), Vicki Robarts (Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol), Sian Taylor (Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol), Rhian Evans (Cydlynnydd Archwilio) a Karen A Evans (Swyddog Gwasanaethau Democraidd).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Arwel Roberts a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad.

Roedd y Cynghorydd Ray Bartley yn cadeirio'r cyfarfod.

### 2 DATGAN CYSYLTIAD

Ni ddatganwyd dim.

### 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 7 Gorffennaf 2016.

Materion yn Codi -

Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad gwybodaeth ar Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru. Roedd briff wedi cael ei gylchredeg y diwrnod cynt - 5 Hydref - a oedd wedi cynnwys llawer o ddolenni i wybodaeth bellach. Atgoffodd y Cydlynnydd Archwilio y Pwyllgor y byddai Aelodau'r Bwrdd yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.**

## 5 CYNLLUN LLES SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer 2014 - 2016 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar Gynllun Lles Sir Ddinbych - 'Cefnogi Annibyniaeth a Gwydnwch'. Eglurodd mai'r Cynllun oedd y cyn Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych (BGLI) bellach yn Gynllun y Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roeddent wedi cytuno ar ei gynnwys ar y cyd ac roeddent hefyd yn gyfrifol am fonitro ei weithrediad.

Yn ystod sefydlu'r BGC cytunwyd y dylai'r Bwrdd newydd gael ei gadeirio gan Aelod o'r Bwrdd nad yw o awdurdod lleol. O ganlyniad, gyda golwg ar ymestyn dylanwad y Bwrdd ar draws y ddwy ardal sirol roedd Cyfarwyddwr Ardal (Canol) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi ei benodi yn Gadeirydd y BGC newydd.

Amlinelloedd yr Arweinydd y 'Pum Ffordd at Les', a oedd yn amcanion strategol y Cynllun, gan gynghori eu bod yn cysylltu'n agos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a oedd i gefnogi gwytnwch hirdymor.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad fanylion ynglŷn â chynnwys y Cynllun a pherfformiad partneriaid hyd yma o ran cyflawni nodau'r Cynllun, gan esbonio ei fod wedi'i lunio cyn cyflwyno darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pwysleisiodd fod mwy o gynnydd wedi'i wneud ynglŷn â chyflwyno rhai o'r 'ffyrrd ar gyfer lles' o'i gymharu ag eraill h.y. 'cymryd sylw' o'i gymharu â 'bod yn weithgar'. Fodd bynnag, roedd yr olaf yn nod hirdymor a fyddai angen peth amser cyn y gellid gweld gwelliannau.

Eglurodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad:

- y broses a gynhaliwyd i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Llesiant;
- sut roedd bylchau mewn gwasanaethau ar draws y bwrdd wedi cael eu nodi a chynlluniau wedi'u llunio i lenwi'r bylchau gyda golwg ar gefnogi gwasanaethau atal a gwella gwytnwch unigolion;
- bod y dull Cyd BGLI/BGC wedi bod yn arloesol ac yn arwain sector. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dangos diddordeb mawr yn y dull a gymerwyd; wrth benderfynu ar y prosiectau i'w cyflawni ar gyfer y blaenoriaethau roedd y BGLI/BGC wedi bod yn arloesol a blaengar er nad oedd yn amharod i gymryd risg;
- roedd gwahanol brosiectau yn cael eu harwain gan wahanol bartneriaid, nid oedd pob un ohonynt yn cael eu harwain gan awdurdod lleol e.e. Cafodd 'Sir Ddinbych 20' ei ddechrau gan Fwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych a arweiniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y prosiect yn targedu

unigolion blaenoriaeth isel/galw uchel drwy broses enwebu i:Leihau  
mynediad heb ei gynllunio i wasanaethau

- Gwella effeithiolrwydd y cydweithio rhwng gwasanaethau
- Gwella bywydau unigolion/cymunedau

- er nad oedd pob un o'r prosiectau wedi cael eu cyflwyno, neu nad oedd rhai wedi bod mor llwyddiannus ag eraill, roedd llawer wedi cael ei ddysgu o'r gwaith sydd ynghlwm â nhw a fyddai o fudd i'r holl bartneriaid wrth ymgymryd â phrosiectau yn y dyfodol. Roedd yr holl bartneriaid hefyd wedi dysgu llawer am ffyrdd ei gilydd o weithio, rhywbeth a fyddai'n ddefnyddiol iawn i bob un ohonynt yn y dyfodol wrth benderfynu ar brosiectau ymyrraeth posibl. Byddai'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith Cynllun Llesiant yn amhrisiadwy i'r BGC yn ei waith cynllunio ar gyfer y Cynllun Llesiant newydd, yn enwedig mewn perthynas â gwaith asesu anghenion; bod y prosiect 'Sir Ddinbych 20' wedi creu llawer iawn o ddiddordeb ar draws Cymru;
- nad oedd unrhyw adnoddau ychwanegol wedi eu neilltuo ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Llesiant, roedd pob partner wedi cyflwyno eu gwaith o fewn adnoddau cyfredol e.e. drwy adleoli neu ddargyfeirio adnoddau presennol, defnyddio gwirfoddolwyr ac ati.
- roedd y prosiect sy'n ymwneud â 'Bancio Amser' wedi ei dynnu'n ôl o blaid canolbwytio ymdrechion y BGLI ar ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli;
- bod gordewdra ac ysmigu yn parhau i fod yn broblem ar draws Sir Ddinbych, gydag ystadegau am oedolion sy'n ysmigu yn dangos cynnydd ar ffigurau blynnyddoedd blaenorol a chofrestru yn uwch na chyfartaledd Cymru. Byddai'r ddau faes yma yn ymddangos yn yr asesiad o anghenion ar ddod ar gyfer Cynllun Llesiant 2017 Conwy a Sir Ddinbych ar y Cyd; mai elfen arall a fyddai'n ymddangos yn y Cynllun hwnnw a'r asesiad anghenion cysylltiedig fyddai Cludiant Cymunedol, gan fod gan hyn ran hollbwysig i'w chwarae i leihau ynysu cymdeithasol. Byddai cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned hefyd yn ymddangos yn y Cynllun newydd, gan fod y Cyngor yn hynod o bryderus mai dim ond tua 13% o boblogaeth y sir sy'n defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Mae'r iaith Gymraeg yn bendant yn fater arwyddocaol, ond nid ydym yn siŵr a fydd yn cael ei flaenoriaethu yn y cynllun newydd eto – nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi trafod yr asesiad llesiant eto (asesiad anghenion); roedd y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn faes o bryder i'r Cyngor a'r BGC, yn seiliedig ar ystadegau diweddar mai dim ond tua 13% o boblogaeth y sir sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol;
- oherwydd cyflwyniad y ddarpariaeth yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r rhwymedigaeth statudol i gynnwl asesiad o anghenion lleol fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Cynllun Llesiant newydd, byddai oes y Cynllun presennol yn cael ei fyrhau i ddarparu ar gyfer y gwaith sy'n ymwneud â chynllunio ei Gynllun olynol; ac

y disgwyliid i'r drafft cyntaf o'r asesiad Llesiant newydd gael i'w gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2016, er mwyn i'r BGC ystyried adborth o ymgysylltu ac ymgynghori a chanfyddiadau'r asesiad llesiant. Yn gynnar yn 2017 byddai'r BGC yn ymgynghori ar flaenoriaethau drafft, roedd archwilio yn un o'r ymgynghoreion statudol ar gyfer yr asesiad. Disgwylir i'r Cynllun Llesiant terfynol gael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Hydref 2017 tua'r un adeg â Chynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. Byddai disgwyl i'r ddau Gynllun ategu ei gilydd.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- er na fu cynnydd sydyn yn nifer yr oedolion sy'n ysmigu yn Sir Ddinbych (fyny o 23% yn 2013/14 i 24% yn 2014/15), y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru oedd 20%, roedd y duedd yn mynd yn y cyfeiriad anghywir a gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r broblem byddai'r Bwrdd lechyd yn gwneud rhywfaint o waith wedi'i dargedu i geisio cyfleu'r neges a gwrthdroi'r duedd h.y. byddent yn targedu mamau beichiog i bwysleisio canlyniadau ysmigu ar fabanod heb eu geni a theuluoedd yn gyffredinol;
- tra bu newidiadau o fewn staff Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) yn ddiweddgar, nod yr ailstrwythuro staff oedd i gynorthwyo i gyflwyno ei wasanaethau yn fwy effeithiol ac i weithio'n fwy effeithiol gyda sefydliadau partner BGC;
- roedd prosiect 'Sir Ddinbych 20' nawr wedi dod i ben ac roedd dau grŵp presennol wedi cymryd drosodd ei gyfrifoldeb; a
- bod Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn bartner gweithredol wrth gyflwyno'r Cynllun Llesiant presennol.

Roedd yr aelodau o'r farn:

- tra bod y dyheadau sy'n gysylltiedig â'r Pum Awgrym Llesiant yn gammoladwy byddai'n aros i weld a fyddent yn neu y gellid eu cyflawni gan y byddent yn gofyn am ymdrech ar y cyd ar ran y trigolion yn ogystal â phartneriaid BGC
- byddai rhoi'r gorau i'r prosiect 'Sir Ddinbych 20' yn golled fawr i'r sir. Roeddent yn teimlo bod problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ffactor sy'n cyfrannu at nifer o problemau cymdeithasol ledled Sir Ddinbych; ffactor arall oedd yn gwaethyg problemau cymdeithasol yn y sir oedd diffyg parhad staff gwasanaeth yr heddlu ar draws y sir a cholli Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) mewn nifer o ardaloedd. Teimlwyd bod diffyg presenoldeb yr heddlu neu aelod cydnabyddedig/adnabyddus o staff yr Heddlu 'ar y bît' mewn cymunedau yn arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu deimlad o ofn ac unigrwydd mewn cymunedau.

Mewn perthynas â'r pwynt olaf gofynnodd yr aelodau i'w pryderon gael eu hanfon ymlaen at gynrychiolydd y Cyngor ar Banel yr Heddlu a Throseddu er mwyn iddo godi'r mater gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Cyn diwedd y drafodaeth gofynnodd y Pwyllgor i'r adran 'Cymerwch Sylw' gyfeirio at y ffaith bod nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn destun toriadau cyllidebol gan yr Awdurdod Tân ac Achub, fel rhan o fesurau caledi o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnwyd hefyd bod is-benawdau yn cael eu cynnwys yn yr adran benodol hon er mwyn gwahaniaethu yn hawdd rhwng elfennau a ddarperir gan wahanol bartneriaid.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**PENDERFYNWYD:** *yn amodol ar y sylwadau uchod, i dderbyn yr adroddiad ar berfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflwyno ei Gynllun Llesiant 2014-16.*

Hysbysodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem nesaf y byddai'r Pwyllgor yn gweithredu yn ei swyddogaeth fel Pwyllgor Archwilio Trosedd ac Anhreftyn dynodedig y Cyngor yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyflawnder 2006 adrannau 19 ac 20.

## 6 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2015/16

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Part Cyhoeddus Adroddiad Diweddariad Blynnyddol Cydbartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2015/16 (dosbarthwyd yn flaenorol) a dywedodd fod y Bartneriaeth, gan gynnwys ei holl bartneriaid preswyl yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Roedd Rheolwr PDC ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych yn manylu ar gynnwys yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig gan bwysleisio bod:

- gwelliannau wedi eu cyflawni yn ystod 2015/16 oedd yn cynnwys gostyngiad mewn troseddau ieuencnid;
- yn dilyn adolygiad Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi (ACEM), roedd yr Heddlu wedi diwygio'r dull y maent yn cofnodi digwyddiadau ac roedd hyn wedi arwain at 'ddrysu' categorïau penodol;
- bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau tra is yn y cartref a adroddwyd arnynt. Roedd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn mynd ati i annog unigolion i roi gwybod am y mathau hyn o ddigwyddiadau; bu cynnydd hefyd yn nifer y digwyddiadau tra is a throsedd rhywiol a adroddwyd arnynt.

Roedd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn fwy tueddol mewn rhai rhannau o'r sir h.y. yfed ar y stryd a chardota yn ymddangos yn gyffredin mewn rhai ardaloedd yn y Rhyl. Yn yr ardaloedd hyn roedd y Bartneriaeth Diogelwch

Cymunedol yn cynorthwyo wrth hwyluso atebion 'haws' er mwyn ceisio lleihau effaith y broblem e.e. drwy ariannu goleuadau stryd ac ati, unigolion oedd achos y niwsans, ac nad oedd yn gyffredinol yn torri unrhyw gyfreithiau, yn amharod iawn i dderbyn y cynnig o wasanaethau ymyrraeth i fynd i'r afael â'u hymddygiad gwrthgymdeithasol e.e. cwnsela ar gyfer camddefnyddio alcohol/cyffuriau ac ati. Yn aml iawn roeddent yn awyddus i fyw eu bywydau fel hyn;

- bu achosion o 'gardota proffesiynol' yn ardal Y Rhyl; a
- nifer o fentrau diogelwch cymunedol wedi'u targedu llwyddiannus iawn a oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn, h.y. cyflwyno 'ardaloedd dim galw'n ddiwahoddiad'; gwiriadau ar hap gyda staff rheoleiddio ar dacsis i sicrhau eu bod yn deilwng i fod ar y ffordd ac yn cydymffurfio â'u manylebau trwyddedu, camau gorfodi yn erbyn gwerthwyr tybaco anghyfreithlon; cyllid a sicrhawyd i ddefnyddio marsaliaid tacsi/gwirfoddolwyr y Groes Goch gyda golwg ar liniaru ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn safleoedd tacsi a'i oblygiadau canlyniadol ar adrannau damweiniau ac argyfwng mewn ysbytai; baw cŵn a gwaith gorfodi sbwriel; hyfforddiant cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar gyfer gyrwyr tacsi; gweithio gyda'r Fforwm Landlordiaid i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol; negeseuon codi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol a chynhyrchu newyddlen ymwybyddiaeth rheolaidd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol:

- bod gwaith gorfodi mewn perthynas â chŵn yn baeddu a sbwriel wedi bod yn arbennig o llwyddiannus;
- cadarnhawyd bod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd o ran troseddau gwledig a sut y gallai gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gefnogi ac ategu gwaith yr Heddlu mewn ardaloedd gwledig e.e. archwilio'r potensial o gael cynllun 'Gwarchod Gwledig' mewn rhai ardaloedd;
- dywedodd bod yna fath o gynllun 'Gwarchod Cymdogaeth' newydd yn y broses o gael ei gyflwyno mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd. Er y byddai cydlynwyr prif gynllun Gwarchod Cymdogaeth yn amodol ar wiriadau cofnodion troseddol, ni fyddai'r holl gysylltiadau yn amodol arnynt. Teimlai'r Aelodau fod hyn felly yn peri risg; dywedwyd hyd yn hyn ei bod yn rhy gynnar i benderfynu a yw'r stori ddiweddar ar 'The Archers' sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn creu cynnydd yn nifer yr achosion yr adroddwyd arnynt. Fodd bynnag, byddai swyddogion, trwy'r Gynhadledd Amlasantiaeth Asesu Risg yn monitro'r ystadegau'n agos; eglurwyd y rhesymau y tu ôl i'r gwahanol ddulliau ar gyfer cofnodi achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Roedd hyn oherwydd bod adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal sir Conwy yn cael eu trin gan Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol bwrspasol ac yn Sir Ddinbych roedd pob galwad yn derbyn sylw gan Ganolfan Alwadau Cwsmeriaid y Cyngor; cydnabod bod unigolion oedd yn yfed alcohol ar y strydoedd yn broblem barhaus, yn enwedig yn Y Rhyl. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar

uchelgais y Cyngor i ddatblygu'r economi leol a denu busnesau i'r ardal. Roedd trafodaethau wedi eu cynnal yn ddiweddar mewn perthynas â'r mater rhwng Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor: Economi a Pharth Cyhoeddus a Phrif Arolygydd yr Heddlu ar gyfer Sir Ddinbych. Mewn rhai achosion, yr unig ateb oedd i'r Heddlu ddefnyddio camau gorfodi, a oedd yn llwybr yr oeddent yn fwy aml na pheidio yn amharod i'w ddilyn. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r broblem o yfed ar y stryd a chardota roedd Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol ar gyflwyno Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus yn gwahardd arferion o'r fath mewn ardaloedd penodol o'r Rhyl, allan ar gyfer ymgynghori ar hyn o bryd;

- cadarnhawyd bod swyddogion yn ymwybodol o'r problemau a achosir gan ddigartrefedd mewn ardaloedd penodol. Er eu bod yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd, os yw unigolion yn dymuno byw eu bywydau mewn ffordd benodol ac yn gwrthod pob cynnig o gymorth a chefnogaeth, ni ellid eu gorfodi i dderbyn y cymorth pe na baent yn torri unrhyw gyfreithiau; dywedodd er bod y 'Ddeddf Crwydradaeth' yn rhoi pwerau i'r Heddlu ddelio â phobl yn cardota ar y strydoedd, nid oedd gan y Gwasanaeth ddigon o adnoddau sydd ar gael i orfodi darpariaethau'r Ddeddf;
- cadarnhau bod trefn drwyddedu gadarn yn hanfodol er mwyn lliniaru'r risg o YGG mewn ac o gwmpas mangre drwyddedig; a
- cadarnhawyd bod gwarantau wedi eu rhoi gan yr holl bartïon y byddai'r prosiectau yn y dyfodol a restrir yn Atodiad 4 o'r adroddiad yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Yn ogystal, os oedd ardaloedd eraill wedi eu nodi fel rhai brys oedd angen sylw, gellid gwneud ceisiadau i ffynonellau perthnasol ar gyfer cyllid.

Eto cyfeiriodd yr Aelodau at ddiffyg cyfathrebu rhwng yr Heddlu a chynrychiolwyr y gymuned o fewn eu hardaloedd a oedd yn cael effaith niweidiol ar drigolion. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen i'r aelodau gael gwybodaeth lawn am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardaloedd gan eu bod yn ddolen gyswilt bwysig i'r gymuned fusnes leol. Gallai cyfathrebu effeithiol rhwng pawb wedyn gynorthwyo i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a helpu i sicrhau bod y Bartneriaeth Teledu Cylch Caeëdig newydd wedi lleoli camerâu yn y mannau hysbys a'u symud i ardaloedd eraill yn ôl yr angen. Cytunodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i gynyddu effaith y gostyngiad yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, diffyg parhad a gweleddedd staff y Gwasanaeth Heddlu mewn cymunedau lleol, yn ogystal â'r angen am gyfathrebu effeithiol a rhannu cudd-wybodaeth gyda chynrychiolwyr cymunedol gyda Gwasanaeth yr Heddlu.

Rhoddwyd sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau y byddai help a chefnogaeth ar gael i bob unigolyn sydd mewn perygl o fod yn ddigartref os ydynt yn gofyn amdano, er gwaethaf y ffaith y gallent fod wedi gwrthod cefnogaeth yn y gorffennol. Dywedodd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn y broses o aifodelu ei wasanaethau digartrefedd a gynigir i bobl ifanc.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Pwyllgor i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am yr adroddiad, am ateb eu cwestiynau ac am frwdfrydedd y Tîm Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i yrru'r gwaith yn ei flaen. Aelodau:

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar y sylwadau ac arsylwadau uchod, i dderbyn adroddiad y Cydbartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar ei weithgareddau yn ystod 2015/16 a'i brosiectau arfaethedig ar gyfer 2016/17.

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddarriad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o dempled 'ffurflen cynnig Aelodau" wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys fel Atodiad 3, ac roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori am gynnydd wrth eu gweithredu wedi'i atodi yn Atodiad 4.

Cytunwyd ar y pedair eitem ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer mis Tachwedd yn ogystal â'r gwahoddiad i fynychu wedi'i estyn i'r holl Aelodau Arweiniol sy'n gysylltiedig â phob eitem a restrwyd ar y rhaglen fusnes.

Cadarnhaodd y Pwyllgor ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

- i ofyn am eglurhad gan yr SC&VCG nesaf ar faterion i fynd i'r afael â Dyrannu Gweithwyr Cymdeithasol i Ysbytai Cymuned ac yn y Gymuned yn Ionawr 2017 a
- holi am y posiblirwydd o ymweld â swyddfeydd newydd y Partneriaethau Masnachol ar gyfer y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn dilyn eitem ar raglen y Pwyllgor yn Ionawr 2017.

Amlygodd y Cydlynydd Archwilio nifer o swyddi gwag ar gyfer cynrychiolwyr ar nifer o Grwpiau Her Gwasanaeth a gofynnodd am enwebiadau i lenwi'r swyddi hynny. Cytunwyd y byddai'r cynrychiolwyr canlynol yn cael eu penodi ar ran y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau:

- Y Cynghorydd Pete Prendegast - Cyfleusterau, Asedau a Thai
- Y Cynghorydd Gwyneth Kensler - Cyllid
- Y Cynghorydd Bill Tasker - Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democratiaidd.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r adroddiad a'r Rhaglen Waith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Nid oedd unrhyw aelod o'r Pwyllgor wedi mynchyu cyfarfodydd i adrodd yn ôl arnynt ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                          |                                                                                                                  |
|--------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiad i'r:           | Pwyllgor Archwilio Partneriaethau                                                                                |
| Dyddiad y Cyfarfod:      | 24 Tachwedd 2016                                                                                                 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol: | Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) / Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol |
| Awdur yr Adroddiad:      | Rheolwr Gwasanaeth (Gogledd yr ardal leol) / Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Strategol                              |
| Teitl:                   | Strategaeth ar gyfer Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych                                                        |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â 'Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych', sef strategaeth y Cyngor ar gyfer galluogi dinasyddion Sir Ddinbych i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles yn eu cartrefi eu hunain. Mae angen cryfhau ein dull gweithredu corfforaethol yn y cyswllt hwn oherwydd:

- heriau demograffig ac ariannol;
- newid yn y galw gan ddinasyddion sydd am aros mor annibynnol â phosibl am gyhyd â phosibl yn eu cartrefi eu hunain;
- disgwyliadau'r cyhoedd o fwy o lais a rheolaeth dros y modd y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau lles personol; ac,
- yr angen i gydymffurfio o fewn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth am strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych a'r gwahanol fentrau sydd wedi'u datblygu mewn perthynas â hyn er mwyn i Aelodau roi sylwadau arno ac i gydnabod pwysigrwydd ei weithredu ar sail gorfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1 rhoi adborth ar y mentrau sydd ar waith i gefnogi'r strategaeth; a
- 3.2 cefnogi dull corfforaethol i ddiwallu anghenion dinasyddion y gallai fod angen cymorth arnynt, gan atal yr angen am ymyrraeth statudol yn eu bywydau.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae deddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi pobl i fod yn annibynnol ac yn iach. Bydd gwasanaethau'n anelu fwyfwy at hyrwyddo atal anghenion unigolion rhag cynyddu a sicrhau bod ganddynt reolaeth i geisio'r help cywir ar yr adeg gywir.
- 4.2 Er mwyn rhoi agweddau atal y Ddeddf ar waith yn effeithiol, mae angen strategaeth glir sy'n nodi ein dull corfforaethol i gefnogi annibyniaeth. Mae'r fersiwn diweddaraf o'r ddogfen hon ynghlwm (Atodiad 1).

- 4.3 Fel rhan o'r strategaeth hon, mae nifer o fentrau wedi cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn oedi neu atal yr angen am ymyriadau statudol. Maent yn cynnwys;
- Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl
  - 'Pwyntiau Siarad'
  - Gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd gwahanol fel bod llawer mwy o bwyslais ar adnabod eu hasedau personol ac adnoddau teulu a chymuned a allai helpu eu hiechyd a'u lles
  - Newid y ffordd y darperir gwasanaethau yn draddodiadol gyda Chyllideb Cymorth, pan fo hyn yn briodol
  - Comisiynu mathau newydd o wasanaethau o'r trydydd sector i gefnogi ein strategaeth
  - Ymagwedd gorfforaethol gryfach
  - Gweithredu ein Cynllun Heneiddio'n Dda
- 4.4 Mewn perthynas â'r trydydd sector, rydym wedi datblygu strategaeth benodol sy'n ei gwneud yn glir i fudiadau trydydd sector mai dim ond gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y gellir darparu arian os ydynt yn gwneud cyfraniad effeithiol at ein strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych ac agweddu atal y Ddeddf.
- 4.5 Rydym hefyd bellach yn ariannu mathau newydd o wasanaethau, megis Prosiect Community Navigator ac Y Waen.
- 4.5.1 Yn ystod 2015/16 buom yn gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i dreialu dull newydd sy'n canolbwytio ar y gymuned i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Gan weithio'n agos gyda Thimau Clwstwr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol o fewn 'Pwyntiau Siarad', pwrrpas prosiect Community Navigator yw cynorthwyo unigolion i adnabod pa gymorth a allai fod ar gael yn y gymuned i gefnogi eu hiechyd a'u lles. Mae cyngor a gwybodaeth bellach ar gael mewn ystod o leoliadau cymunedol - mewn partneriaeth ag Age Connects a'r Groes Goch Brydeinig, ac yr ydym yn nodi ar gam llawer cynharach sut y gellir cefnogi iechyd a lles cyffredinol pobl. Mae'r fenter hon wedi profi'n llwyddiannus iawn ac, yn dilyn prosiect peilot, rydym bellach wedi sicrhau arian Cronfa Gofal Canolraddol i ehangu'r prosiect.
- 4.5.2 Rydym yn cydnabod y gall prosiectau cymunedol bach yn aml wneud gwahaniaeth sylweddol i gefnogi iechyd a lles pobl. O ystyried hyn, rydym bellach yn gwneud cyfraniad ariannol i Ganolfan Allgymorth Y Waen ger Llanelwy. Mae hyn yn darparu gweithgareddau dydd i nifer o bobl hŷn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r llynedd cafwyd ymwelliad gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a ddaeth i'r casgliad; "mae'r cymorth a ddarperir yn y ganolfan yn cyd-fynd yn dda â'r ddyletswydd newydd a osodir ar Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r rhaglen atal".
- 4.6 Er mwyn rhoi'r strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych ar waith yn effeithiol, mae'n hanfodol cael dull corfforaethol cryf. Felly, mae'r Strategaeth yn gwneud cysylltiadau clir â'r Cynllun Lles. Fodd bynnag, gan symud ymlaen, mae angen cryfhau'r ffordd y gall adrannau unigol y Cyngor Sir gyfrannu at y strategaeth hon.
- 4.7 Mewn perthynas â Phobl Hŷn, mae angen hefyd am ymagwedd partneriaeth effeithiol i weithredu ein Cynllun Heneiddio'n Dda (gweler Atodiad 2). Mae hyn yn nodi camau gweithredu allweddol mewn perthynas â'r pum thema:
- Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed.
  - Cymunedau Cefnogi Pobl â Dementia.
  - Atal Cwympriadau

- Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol.
- Cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, dysgu a sgiliau newydd.

Caiff y Cynllun hwn ar waith ei oruchwylion gan y Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn, sy'n cynnwys nifer o sefydliadau partner.

- 4.8 Mae Pwynt Mynediad Sengl yn Sir Ddinbych bellach yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fydd rhywun yn cysylltu â ni am help.
- 4.9 Mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn datblygu 'Pwyntiau Siarad' ymhellach i annog pobl i ddod allan o'u cartrefi eu hunain, lle y bo'n bosibl, i gymryd y cyfle i gwrdd â staff iechyd a gofal cymdeithasol o bob sefydliad partner. Yn ogystal, gallant gwrdd â phobl eraill, gan weithredu fel cefnogwyr cyfoedion o'u cymuned eu hunain a siarad â nhw am y canlyniadau lles y maent yn dymuno ar gyfer eu hunain neu eraill. Erbyn hyn mae Pwyntiau Siarad rheolaidd ym Mhrestatyn, Y Rhyl, Dinbych, Rhuthun, Llangollen a Chorwen, ac maent i gyd yn darparu lleoliadau cyfleus, priodol a chroesawgar. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan y 3ydd Sector drwy Community Navigators.
- 4.10 Pan fydd pobl yn cwrdd â swyddogion, mae gennym bellach wahanol fath o sgwrs, sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig i unigolion a chanolbwytio ar y cyfrifoldeb ar y cyd i unigolion a'r awdurdod lleol, er mwyn diwallu anghenion a sîr hau canlyniadau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen ond yn gymwys os ellir ei ddiwallu drwy Gynllun Gofal a Chefnogaeth a reolir gan yr awdurdod lleol, **ac** ni ellir ei ddiwallu mewn unrhyw ffordd arall, gan gynnwys y gallu i unigolion ddefnyddio eu hadnoddau personol, gan gynnwys cyllid, eu teulu a rhwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau / gweithgareddau hygrych sydd ar gael o fewn eu cymuned, gyda chefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol i wneud hynny os oes angen. (Gweler Atodiad 3 - Yr Olwyn Adnoddau).

Mae taflen ar gyfer dinasyddion yn esbonio'r dull newydd bellach ar gael. (Gweler Atodiad 4)

- 4.11 Mae CSS yn y broses o foderneiddio'r ffordd y mae gofal a chefnogaeth yn cael ei reoli yn ariannol er mwyn cefnogi annibyniaeth. Cyllideb Cefnogaeth yw swm o arian a nodir a gaiff ei ddyrannu i fodloni'r canlyniadau hynny y gellir eu bodloni'n unig gan yr awdurdod lleol, a thrwy hynny bydd gan yr unigolyn reolaeth lawn o brynu ei ofal a'i gefnogaeth ei hun, a phenderfynu sut y darperir gwasanaethau i ddiwallu ei anghenion . Mae Sir Ddinbych yn archwilio:

- Cyllidebau hunan-reoli (a elwir yn Taliad Uniongyrchol mewn Deddfwriaeth) ymhellach
- Cyllidebau a weinyddir gan ddarparwr am y tro cyntaf
- Cyllidebau a reolir gan yr Awdurdod Lleol am y tro cyntaf

Bydd hyn yn gofyn am weithio'n agos gyda darparwyr, ffyrdd gwahanol o feddwl ar gyfer staff a dinasyddion a newidiadau i systemau ariannol. Mae sesiynau hyfforddi ar gyfer staff wedi cael eu cyflwyno drwy fis Medi a mis Hydref ac mae 'Melin Draffod Cyllideb Cymorth' yn dechrau ym mis Tachwedd 16 a fydd yn canolbwytio ar y newidiadau i ymarfer.

- 4.12 Mae swyddogion yn gweithio ar draws gwasanaethau a sefydliadau fel bod dealltwriaeth am y dull newydd hwn o annibyniaeth, e.e.:

- Caiff gweithdrefnau ar draws gwasanaethau eu datblygu ar gyfer addasiadau tai gyda Thai a'r Amgylchedd Adeiledig
- Mae protocol yn cael ei ddatblygu gyda Phrifffyrdd ynghylch pryd bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu arian ar gyfer cyrbau isel.
- Mae trafodaethau gyda Darparwyr y Sector Annibynnol am yr angen i weithio i gynlluniau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael eu cynnal.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych yn cael effaith glir ar y flaenoriaeth gorfforaethol i sicrhau bod pobl diamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Fodd bynnag, drwy weithio'n gorfforaethol, mae yna hefyd effaith a nodir ar flaenoriaethau eraill, gan gynnwys sicrhau mynediad at dai o ansawdd da a moderneiddio'r cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau'r Cyngor. Caiff yr effeithiau ar wasanaethau eraill eu hamlygu yn yr adroddiad.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Prif gasgliad yr Asesiad o Effaith ar Les yw y dylai gweithrediad effeithiol y strategaeth hon wneud cyfraniad mawr at les pobl Sir Ddinbych, yn enwedig yr unigolion hynny, a oedd yn y gorffennol, wedi bod mewn angen am wasanaethau statudol. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn agos ag agweddau atal Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae'r Asesiad o Effaith hefyd yn dangos ei fod yn cefnogi egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae copi o'r Asesiad o Effaith ar Les yn amgaeedig yn Atodiad 5

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhalwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae Aelodau Etholedig wedi cael gwybod am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wrth iddo gael ei ddeddfu. Mae grwpiau defnyddwyr ac eiriolaeth a darparwyr y Sector annibynnol a'r 3ydd Sector wedi bod yn rhan o ddatblygiadau mwy manwl.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ariannu pwysau costau ychwanegol yn y sector gofal fel rhan o'i gynlluniau cyllideb. Fodd bynnag, mae'r pwysau yn sylweddol a chynyddol yn y tymor canolig. Dros amser, bydd y Strategaeth ar gyfer Cefnogi Annibyniaeth a mentrau oddi mewn iddo yn newid y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni rhai o'i ddyletswyddau. Bydd Cyllid yn cefnogi datblygiad y mentrau newydd diddorol hyn ac yn monitro'r effaith ariannol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

Y risg i'r Cyngor yw na fydd y gost o ddarparu gofal a chymorth yn fforddiadwy, ac felly yn gofyn am doriadau i faint o ofal a chefnogaeth y mae pobl yn ei gael. Nod y strategaeth yw lliniaru yn erbyn y risg hon drwy sicrhau bod pobl yn datblygu gwydnwch a sgiliau wrth reoli eu hanghenion eu hunain tra hefyd yn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'u cymunedau i leihau'r risg o arwahanrwydd cymdeithasol.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pŵer Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:** Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Strategol Ffôn: 01824 706632

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Strategy for Supporting Independence In Denbighshire



## DOCUMENT CONTROL

|                     |                                                                  |
|---------------------|------------------------------------------------------------------|
| Version             | 0.9.3                                                            |
| Date Modified       | 9 <sup>th</sup> November 2016                                    |
| Document Controller | Gwynfor Griffiths<br>Community Support Services                  |
| Document Author     | S O'Donnell<br>Programme Manager,<br>Modernising Social Services |
| Status              | Draft                                                            |

## CONTENTS

|                                                     | Page      |
|-----------------------------------------------------|-----------|
| <b>Introduction</b>                                 | <b>2</b>  |
| <b>Vision and Current State</b>                     | <b>4</b>  |
| <b>Overview of Supporting Independence Strategy</b> | <b>9</b>  |
| <b>Strategic Principles</b>                         |           |
| <b>Active Community Support Well-being</b>          | <b>10</b> |
| <b>Universal Services Optimise Independence</b>     | <b>14</b> |
| <b>Access to advice and Information</b>             | <b>15</b> |
| <b>Next Steps</b>                                   | <b>17</b> |
| <b>Related Initiatives</b>                          | <b>18</b> |

## INTRODUCTION

Supporting Independence in Denbighshire is the Council's strategy for enabling Denbighshire citizens to maintain their independence and well-being in their own homes. There is a need to strengthen our approach in this respect due to: demographic and financial challenges; changing demand from citizens who want to remain as independent as possible for as long as possible within their own homes; and public expectations of increased voice and control over how they are supported to achieve their personal well-being outcomes .

It is imperative for vulnerable people to be supported in a fundamentally different way than they have been in the past. This will entail communities taking on more responsibility for preventing reliance on social care services. These themes are embodied within the Social Services and Wellbeing (Wales) Act which was implemented on 6<sup>th</sup> April 2016.

Essentially , this strategy is about keeping people out of statutory social care services for as long as possible by enabling them to remain independent. Not only is this beneficial for citizens because they are able to live more active and fulfilling lives, but it enables the Council to manage its scarce resources to continue providing good quality support to those people who really need it..

### The Social Services and Well-Being (Wales) Act

This Act is built on 5 principles which guide the way we work:

1. Citizens shall have a strong voice and control over the services they receive
2. Prevention and early intervention are key to helping citizens live independent live
3. Independent lives are underpinned by good well-being
4. We will determine with you what is important and agree well-being outcomes.
5. The Council will collaborate with its partners in /health, the voluntary and independent sectors to support well-being and independence for all citizens.

Denbighshire County Council's strategic objective aligned to this requirement is:

*“Vulnerable people are protected & are able to live as independently as possible.”*

The Strategy is intended to be taken forward as a vehicle for change, in which the whole Council and our partners in Health, Town & Community Councils and the Third sector will be actively involved.

## VISION AND CURRENT STATE

Our aim is for people to lead fulfilled and independent lives in their communities for as long as is practicable and prevent the need for managed social care. This strategy requires a much greater focus on early intervention and prevention and it can only be delivered successfully in partnership with communities and other organisations, from both the private and public sectors, which can contribute to the wellbeing of citizens. We must therefore work with our partners to bring about a change in culture and provide a greater focus on promoting; resilience, independence, self-care and community support. We will enable improved access to information, advice and assistance, including self-help where feasible.


The Council has a range of functions and duties in relation to supporting vulnerable adults but, corporately, we must reduce the number of vulnerable people requiring formal care and support in the future through more innovative community based approaches. This strategy is closely linked with other initiatives such as the Well-Being Plan and the Ageing Well Plan and a central requirement of all of these is enabling individuals and families to maintain their own health and wellbeing.

Appendix I provides some key facts and figures regarding service provision and expenditure in Denbighshire.


### Appendix 1

*Denbighshire County Council spends c. £46 million on social care for adults. At the end of March 2015 the figure we reported for the people who could live independently without a package of care was 94.94% meaning 5% couldn't live independently. That equates to almost one quarter of the Council's overall budget being spent on 5% of the population. Without change there is a compelling argument that this spend will increase to support the increase in older people living longer and requiring support, which implies that other Council services will suffer.*

*For Denbighshire the projections for numbers of older people are illustrated below:*




The projected percentage increase for each age band for Denbighshire is illustrated below, using **Stats. Wales'** Denbighshire data <sup>1</sup> as a baseline and applying national forecast incremental changes to the Denbighshire values.



If we apply these percentage increases to the numbers of people currently receiving significant support and/or residential care in the county, the forecast for people over 64 requiring significant support in the future is illustrated below:


<sup>1</sup> <https://statswales.wales.gov.uk/Search?Query=population+by+age>



*There would be an overall increase of c. 17% of over 64's requiring significant support, the majority of these citizens being over 74 as the 65 to 74 age range is projected in fact to decrease by 2025 onwards. This would equate to a significant increase in budget of an estimated £5 million per annum, unless we can prevent the trend.*

The diagram below illustrates our ambition to move the point at which formal social care is needed (move the blue line) incrementally so that, increasingly, citizens have access to as much advice, information and assistance as possible without formal social care intervention.

The diagram below is adapted from a model developed by the Social Services Improvement Agency:



This model illustrates the need to give greater attention to strengthening the left side of the 'windscreen' by supporting independence, so that the need to provide managed support on the right side of the model is reduced or delayed.

Effective early intervention and preventative services are at the heart of this strategy and the need to strengthen them is now a legislative requirement!

### Early Intervention and Prevention

Early Intervention is defined as targeted support that will contribute towards preventing or delaying the development of people's needs for managed care and support or managing a reduced reliance on that care and support. It is recognised that sometimes people will need a little more support to regain and sustain their independence. The Council's aim is to intervene as soon as possible if a citizen is in crisis to help regain and sustain well-being and independence.

The Social Services and Well-being (Wales) Act requires Councils to work in collaboration with partners and to ensure that a range of preventative services is available and accessible to everyone in the community. The aim is to ensure all citizens can take responsibility for their own well-being, using the services which help prevent poor well-being. These services are targeted to encourage each citizen to:

- Be more active
- Connect with others and prevent loneliness
- Enjoy the environment in which they live
- Keep learning
- Give back to their communities where possible.

Preventative services can be:

- Universally provided to help people avoid the need for care and support
- Targeted at individuals who have an increased risk of developing care and support needs, and
- Aimed at minimising the need for existing care and support needs for a service user

We wish to ensure that, when people have care and support needs, they will have greater access to locally based services that facilitate self-care and support them to maintain their independence. This approach will seek to delay or reduce the need for ongoing care and support and will focus on meeting people's needs in their own community wherever possible. At all stages, we will work to ensure that people are able to have a strong voice and control over the **well-being outcomes** they need to achieve in order to remain independent and the means to achieve them.


### **Well-being**

Promoting the well-being of Denbighshire citizens is a critical part of this strategy. When citizens come into contact with our Community Support services, we will have a conversation and try to understand what outcomes to improve well-being each person would like to achieve. We are interested in what matters to each person and not what is the matter with them. We will work with citizens to agree how to best achieve their well-being outcomes, taking into account the strengths and support they already have, their likes and dislikes and what is local to them. Well-being outcomes will be based around the following framework, enshrined in the Social Services and Well-being (Wales) Act:

- People know and understand what care and support opportunities are available and have a voice in determining how to meet their well-being outcomes
- Physical and mental health and emotional well-being
- Protection from abuse and neglect
- Education, training and recreation opportunities are available and accessible
- Citizens can enjoy healthy domestic, family and personal relationships
- Citizens can improve their social and economic well-being – able to participate in social activities and enabled to work
- Citizens have suitable living accommodation

## OVERVIEW OF SUPPORTING INDEPENDENCE STRATEGY

Supporting Independence in Denbighshire consists of 3 key elements, illustrated in the diagram below:



Each of these elements is summarised below and the following sections of this strategy provide more detail.

## ACTIVE COMMUNITIES THAT SUPPORT WELL-BEING


This element of the Supporting Independence in Denbighshire strategy closely aligns with the Denbighshire Well-Being Plan and Ageing Well Plan. Improved well-being for the whole community is fundamental to achieving the goal of preventing dependence on formal social care intervention. The whole community benefits from this approach and it has a positive impact on the more vulnerable members of a community. Improving and sustaining the well-being of citizens will prevent the need for formal intervention and sustain their independence.

### The Denbighshire Well-Being Plan

The **Well-Being Plan** for Denbighshire supports and enables the Independence of citizens, through developing an active community which supports well-being and working across the Council to build on accessible, inclusive universal services that prevent the need for formal intervention.

### Vision

The aim of the Denbighshire Well-being Plan is to promote the well-being, independence and resilience of all citizens and to help communities build on their strengths and become self-supporting. We want to help communities regain the ability to be more supportive towards people who are vulnerable. This is in line with the themes underpinning the Well-being of Future Generations Act. All public services will ultimately have to work together and in partnership to benefit the well-being of citizens. The Well-being goals have been set out by Welsh Government, illustrated below:



Our Ageing Well Plan also underpins this vision of well-being for citizens.

### Ageing Well Plan for Denbighshire

This Plan aims to make Denbighshire a great place for people to grow old, through working with partners. In summary, it:

- influences the development of shared spaces to benefit access and uses for older people
- addresses the impact of falls on people's well-being and encourage greater prevention
- links with the Well-being Plan to encourage local community groups and businesses to be dementia-friendly and to strengthen citizens' awareness of dementia
- encourages partner agencies to offer opportunities for learning and employment for older people
- develops a view of what shapes loneliness for older people and work with a small group of people to identify community responses to combat loneliness and social isolation.

### Community Navigator

During 2015/16 we worked with third sector partners in piloting a new community focused approach to supporting people in their communities. Working closely with Community Support Services Cluster Teams within 'Talking Points', the purpose of the Community Navigator project is to assist individuals with identifying what help might be available in the community to support their health and well-being.

In delivering this service, third sector providers will develop and support local networks and communities to:

- Support individuals to live as independently as possible in the community by providing information and advice on appropriate resources
- Ensure there is a person centred approach to supporting local people
